Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cwm-y-Glo
Cwm-y-Glo
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4DE

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cwm-y-Glo

Lleolir yr ysgol ym mhentref Cwm-y-Glo yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael eu rhannu'n ddau ddosbarth. Mae 17 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, ac nid oes yr un disgybl oed meithrin. Mae llawer o'r disgyblion yn byw tu hwnt i ddalgylch yr ysgol.

Tua 8.9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn llawer is na'r canran cenedlaethol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac nid oes yr un o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 5% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol newydd ei derbyn fel ysgol greadigol arweiniol ac mae'n dechrau gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm a/neu ddysgu proffesiynol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010 a phenodwyd y pennaeth i'w swydd yn barhaol yn 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth wedi arwain yr ysgol drwy gyfnod o gryn ansefydlogrwydd staffio gan sicrhau sefydlogrwydd yn ddiweddar iawn. Mae ganddi weledigaeth sydd wedi arwain at greu awyrgylch hapus, diogel a gofalgar yn llwyddiannus iawn. Sicrhaodd safonau a darpariaeth gadarn iawn yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau diweddar wedi cael digon o amser i sicrhau'r addysg o'r ansawdd gorau ar draws yr ysgol ac mae angen gwella'r addysgu yng nghyfnod allweddol 2. Mae llais a hawl y disgybl yn datblygu'n bwrpasol ac mae safonau lles ac agweddau'r disgyblion tuag at ddysgu yn gadarn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio ar gyfer y cwricwlwm ac ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn cynnig dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Cryfhau safonau y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 fel bod disgyblion yn dod i siarad a darllen yn fwy hyderus ac ysgrifennu'n fwy annibynnol

A3 Codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal ag y gallent

A5 Cryfhau'r broses hunanarfarnu a gwella ansawdd fel eu bod yn adnabod yr agweddau sydd angen eu gwella yn well a'u bod yn llai dibynnol ar y pennaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy’n is na’r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn cyflawni'n dda o’u man cychwyn, gan gynnwys yr ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gweithio’n bwrpasol yn y dosbarthiadau ac yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn nodau’r gwersi. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafaredd bron pob un o’r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu’n dda. Maent yn gwneud cynnydd cadarn a chyson yn eu defnydd o'r Gymraeg, ac ar ddiwedd y cyfnod mae disgyblion yn cyfathrebu'n glir, gan ddefnyddio geirfa sy'n effeithiol a chywir. Enghraifft dda o hyn yw’r disgyblion yn trafod ac yn disgrifio dail yr Hydref fel “dreigiau coch”. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n effeithiol ar gyflwyniadau gwersi a chyfraniadau disgyblion eraill. Maent yn trafod eu gwaith ac ateb cwestiynau yn y dosbarth gan ddefnyddio geirfa a phatrymau ieithyddol priodol ar y cyfan. Fodd bynnag, nid ydynt yn siarad yn ddigon hyderus ac nid yw eu hymatebion yn ddigon estynedig. Yn y Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu dysgu'n ddeallus ac yn esbonio’u gwybodaeth a’u syniadau'n eglur a hyderus. Gallant fynegi eu hunain yn effeithiol iawn ac ymateb i siaradwyr yn gywir ac yn estynedig.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn wrth ddatblygu eu medrau darllen. Ar ddiwedd y cyfnod, maent yn darllen yn hyderus ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau am yr hyn maent wedi ei ddarllen. Maent yn defnyddio ystod bwrpasol o strategaethau i fynd i’r afael â geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau Cymraeg yn briodol ac mae mwyafrif yn ynganu a defnyddio goslef yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae tuedd i’r darllen fod yn fecanyddol ac nid yw mwyafrif yn ymateb yn estynedig wrth drafod y cynnwys. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen llyfrau Saesneg gyda chywirdeb a mynegiant cynyddol gan drafod y cynnwys yn aeddfed. Gallant gywain gwybodaeth am bynciau penodol yn y ddwy iaith o fwy nag un ffynhonnell yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am Anne Frank yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n annibynnol gan atalnodi’n gywir a defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau’n effeithiol i gyfoethogi’r gwaith. Enghraifft dda o hyn yw eu hysgrifennu yn disgrifio gwallt cymeriad mewn stori yn “bigog fel draenog”. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn bwrpasol. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw’r llythyrau maent yn eu hysgrifennu oddi wrth faciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd a mynegi barn am foddi Tryweryn. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn rhy ddibynnol ar sgaffaldau ysgrifennu yn y Gymraeg ac, o ganlyniad, mae eu hysgrifennu annibynnol yn amlygu gwallau cystrawen a

mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus yn Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio ystod amrywiol o batrymau brawddegau'n gywir ac yn dangos gafael dda ar eirfa a thermau perthnasol, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu erthygl papur newydd am daith y dyn cyntaf i'r lleuad. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad mathemategol. Gall y disgyblion hyn adeiladu ar ddysgu blaenorol o ddidoli anifeiliaid yn effeithiol iawn er mwyn didoli dail ac yna creu cyfres o graffiau, gan eu labeli'n gywir. Gallant ddehongli gwybodaeth o restrau, tablau, diagramau a graffiau yn dda. Maent yn trin arian yn gywir, yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur ac amser ac yn cymhwyso ystod o fedrau rhifedd ar draws yr holl feysydd dysgu yn bwrpasol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn gwersi mathemateg yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif sy'n mynd yn gynyddol anos. Maent yn gallu gweithio'n systematig wrth ddarganfod y fargen orau mewn archfarchnad wrth wneud posau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni gwaith defnyddiol wrth baratoi graffiau amrywiol er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn dilyn ymchwiliadau gwyddonol. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson nac i'r lefel ddisgwyliedig ar draws y cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn gweithgareddau iaith, trin data ac wrth ddatrys problemau. Maent yn cychwyn rhaglenni teganau i symud yn bwrpasol ar hyd mat rhif neu gwrs antur. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn prosesu geiriau yn llwyddiannus, yn chwilio am wybodaeth o'r we ac yn creu darluniau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn cychwyn cwestiynu cronfeydd data ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng gan ddatblygu eu medrau meddwl yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion rhan uchaf cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau modelu yn ddigon da.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r ymdeimlad o deulu gofalgar yn lledaenu drwy'r ysgol gyda phawb yn dangos gofal tuag at eraill, a'r disgyblion hŷn yn cymryd gofal o rai iau yn naturiol iawn. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn gryfder amlwg. Mae'r disgyblion yn gwrtais iawn â'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod yn union at bwy i droi er mwyn derbyn cyngor neu gynhaliaeth os ydynt yn poeni am rywbeth. Mae eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we yn datblygu.

Trwy waith elusennol amrywiol, mae'r disgyblion yn ymwybodol o anghenion eraill llai ffodus yn lleol a thramor. Maent yn codi arian a chyfrannu tuag at y banc bwyd lleol, elusennau iechyd cenedlaethol, ac anghenion eraill llai ffodus yn Nepal. Maent yn dysgu'n llwyddiannus am yr angen i ailgylchu ac yn casglu dillad er budd elusen leol.

Mae disgyblion bron yn ddieithriad yn cadw ar dasg ac ymdrechu'n ddiwyd yn ei gwaith. Mae agwedd gadarnhaol ganddynt tuag at ddysgu bron ym mhob pwnc. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn cwblhau gwaith yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, maent yn barod i gynnig gwahanol ffyrdd i ddatrys problemau mathemategol ac wrth wneud arbrofion gwyddonol.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach gan ddeall pwysigrwydd effaith ymarfer corff cyson ar eu hiechyd. Atgyfnerthir hyn trwy wneud arbrofion gwyddonol ar effaith ymarfer corff ar guriad calon a chymryd rhan mewn gweithgaredd rhedeg dyddiol o amgylch yr ysgol. Mae'r disgyblion yn rhedeg siop ffrwythau yn ddyddiol ac yn elwa o ddysgu am arddio yn achlysurol drwy weithgaredd sy'n cael ei arwain gan rieni.

Mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb ac yn lleisio'u barn am faterion yn ymwneud â'r ysgol trwy weithgarwch y cyngor ysgol. Gydag elw gwerthiant y siop ffrwythau, mae'r cyngor ysgol wedi llwyddo i brynu rhagor o offer chwaraeon er mwyn i'w cyd-ddisgyblion eu mwynhau yn ystod yr awr ginio. Mae hyn yn hybu eu ffitrwydd yr un pryd.

Mae rhan fwyaf y rhieni a disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i ymdrechion cyson yr ysgol a'r swyddog lles i gynyddu canrannau presenoldeb. O ganlyniad, mae canran presenoldeb disgyblion yn cynyddu'n briodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ansefydlogrwydd staffio yng nghyfnod allweddol 2 dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r athrawon cyfredol yn meithrin a chynnal perthynas waith dda iawn â'r disgyblion, ac maent yn creu awyrgylch ddysgu gynhaliol yn y gwersi. Mae'r athrawon yn cyflwyno'n fedrus a brwdfrydig ac yn cynnig amrywiaeth buddiol o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r holl staff yn modelu iaith gadarn ac maent yn ceisio cyfoethogi iaith disgyblion a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac anffurfiol yn gyson. Mae'r athrawon a'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac yn cynnig cymorth pwrpasol yn ôl anghenion disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion adolygu a gwerthuso eu gwaith. Maent yn esbonio'r tasgau'n glir ac yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn pob disgybl. Maent yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith ymhellach gan roi cyfleoedd pwrpasol iddynt ymateb i'r sylwadau yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar y safonau ysgrifenedig yn y Gymraeg.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae'r cynllunio yn sicrhau cyd bwysedd da rhwng gweithgareddau annibynnol a'r rhai sy'n cael eu harwain gan oedolyn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau diddorol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. O ganlyniad, erbyn diwedd y cyfnod mae'r disgyblion yn ddysgwyr annibynnol hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n ennill diddordeb disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan yr ysgol drosolwg ddigon clir o'r hyn a gynllunnir dros gyfnod. O ganlyniad, nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod ehangder y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n gyflawn. Nid yw'r her i ddisgyblion mwy galluog yn ddigon effeithiol. Mae'r ysgol wedi adnabod hyn ac yn gweithredu'n fwriadus i'w wella. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd cyson a chyfoethog i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio ar gyfer y medrau yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau'r disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu eu medrau rhifedd nac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith yn ddigon cyson.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau a phrofiadau cyfoes sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i chymuned yn llwyddiannus. Darperir ystod o ymweliadau amrywiol â mannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft i'r amgueddfa llechi lleol a gorsaf bad achub Biwmares. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned a diwylliant Cymru yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, tegwch a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. Mae ymweliadau cyson aelodau o eglwysi cyfagos i arwain gwasanaethau a sesiynau canu yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn effeithiol ac mae trefniadau llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i redeg ar y trac oddi amgylch yr ysgol yn ystod eu hamser egwyl ac mae hyn yn hybu eu ffitrwydd yn dda. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i gynnig gweithgareddau tu allan i oriau'r ysgol sydd yn hybu ffitrwydd disgyblion ymhellach. Er enghraifft, mae clwb pêl-droed lleol yn cynnal clwb ar ôl ysgol yn achlysurol ac mae disgyblion yn cystadlu ym mabolgampau a chystadlaethau'r Urdd yn flynyddol. Fodd bynnag, mewn chwaraeon, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fod yn rhan o dîm gyda chymheiriaid o'r un oedran.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau llwyddiannus i datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes ac etifeddiaeth Cymru. Er enghraifft, maent yn cyflwyno bywyd y Tywysog Llywelyn a hanes Castell Dolbadarn. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth o hanes eu cymuned a diwylliant Cymru. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau a creadigol disgyblion yn effeithiol ac mae cyfleoedd buddiol i astudio gwaith arlunwyr lleol ac efelychu eu waith. Trwy gymryd rhan yn eisteddfodau'r Urdd a'r pentref, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ei derbyn fel ysgol arloesol greadigol, ond mae'n rhy fuan i weld effaith hyn eto.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddylanwadu ar elfennau o waith yr ysgol, er enghraifft trwy gynnig syniadau i'r cyngor ysgol yn y bocs syniadau. Maent yn cael cyfleoedd addas i gynnig syniadau ar ddechrau'r themâu neu ar ddechrau pob stori yn y cyfnod sylfaen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r swyddog heddlu lleol, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau effeithiol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion o sut i gadw eu hunain yn ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we yn datblygu'n briodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu addas ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r wybodaeth yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd neu rhifedd. Pan adnabyddir disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, mae trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer eu cynorthwyo i wneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i dderbyn cyngor a chefnogaeth ar sut i ymateb yn effeithiol i anghenion ychwanegol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi derbyn cymorth oddi wrth y seicolegydd addysg ar sut i ymateb i unrhyw achosion o wrthdaro sydd yn digwydd ymhlith disgyblion. Mae hyn yn cael dylanwad positif ar strategaethau rheoli ymddygiad disgyblion ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at ethos cyfeillgar yr ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae'r pennaeth yn datblygu sgiliau arwain pwrpasol ac mae ganddi adnabyddiaeth briodol o safonau a darpariaeth yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth sy'n cael ei rhannu'n glir â holl randdeiliaid yr ysgol. Mae wedi creu awyrgylch hapus, diogel a gofalgar yn llwyddiannus iawn ac yn parhau i geisio darparu addysg o'r ansawdd gorau. Yn gyffredinol, mae'n blaenoriaethu'n effeithiol er mwyn gosod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r pennaeth wedi arwain yr ysgol drwy gyfnod o ansefydlogrwydd staffio. Dros gyfnod, bu cryn amrywiaeth yn y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2, gyda phedwar o athrawon gwahanol yn addysgu yn y dosbarth. Bellach, mae'r pennaeth wedi sicrhau sefydlogrwydd gyda phenodiad athro profiadol. Mae gan yr athrawon cyfredol ddealltwriaeth dda o ddata perfformiad yr ysgol a chyrhaeddiad y disgyblion. Maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth i dargedu unigolion ac i herio grwpiau penodol o ddisgyblion.

Nid yw cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn ddigon cyson ac maent yn rhy anffurfiol. Mae'r agenda ar gyfer yr ychydig gyfarfodydd ffurfiol a gynhaliwyd yn glir ac yn canolbwyntio'n briodol ar wella cyrhaeddiad a'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, gan nad oes cofnodion cyson, nid yw yn ddigon clir pwy sydd yn gyfrifol am weithgareddau ac nid yw terfynau amser yn ddigon penodol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn datblygu'r gallu i gynorthwyo a gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol yn briodol. Mae eu cyfarfodydd yn canolbwyntio'n glir ar y ddarpariaeth a sicrhau'r safonau angenrheidiol. Yn gyffredinol, mae ganddynt wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol, ond nid ydynt yn herio'r ysgol yn ddigon pwrpasol fel cyfaill beirniadol. Mae tua hanner y llywodraethwyr wedi ymweld â'r ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a dod i ddeall, trwy brofiadau uniongyrchol, beth yw cryfderau a materion sydd angen sylw.

Defnyddia'r llywodraethwyr y ddogfen safonau addysgu cenedlaethol i ysgolion yn effeithiol i sicrhau darpariaeth dda a chymryd penderfyniadau anodd yn ôl yr angen. Maent wedi cydweithio â'r pennaeth i sicrhau bod y proses rheoli perfformiad a monitro'r ddarpariaeth wedi mynd i'r afael â thanberfformiad yn gadarn. Mae'r corff wedi sicrhau bod y cyngor ysgol yn cael cyfleoedd i gyflwyno gwybodaeth iddynt ac maent wedi rhoi lle i lais y disgybl yn y broses o ddewis athrawon.

Yn gyffredinol, nid yw'r ysgol wedi ymateb yn ddigon cyflawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, nid yw medrau rhifedd yn cael eu datblygu'n ddigon rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol rhaglen briodol ar gyfer monitro ac arfarnu ystod o agweddau o'i gwaith dros gyfnod penodol o amser. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, trafod gwaith gyda'r disgyblion a holi barn disgyblion a rhieni. Mae'r arweinwyr hefyd yn dadansoddi a defnyddio data asesiadau diwedd cyfnod allweddol athrawon yn gymwys. Mae'r adroddiadau monitro a chraffu ar lyfrau yn arfarnol ac yn nodi'n glir y cryfderau, ynghyd â'r hyn sydd angen sylw. Fodd bynnag, mae'r broses yn or-ddibynnol ar y pennaeth, gan nad oes sefydlogrwydd wedi bod yn y staffio yn ystod y flwyddyn addysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn arfarnol ac yn defnyddio iaith feintiol yn bwrpasol. Mae'n nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac yn adnabod llawer o'r materion pwysig sydd angen sylw. Fodd bynnag, nid yw'n adnabod yn ddigon manwl yr holl agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2 mewn perthynas â safonau yn y Gymraeg a chynllunio'r ddarpariaeth. Mae'r arweinwyr yn trafod y meysydd sydd angen eu gwella ac yn cynnwys y prif rai fel blaenoriaethau synhwyrol yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynlluniau datblygu yn briodol, yn cynnwys targedau pwrpasol, atebolrwydd clir ac amserlen ymarferol. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn rhy faith ac yn cynnwys gormod o wybodaeth amlinellol cyn dod at y prif flaenoriaethau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion eraill. Mae cyfleoedd gwerthfawr i holl aelodau'r staff rannu profiadau ac arfer dda gydag eraill y tu hwnt i'r ysgol. Mae hyn wedi bod o gymorth i ddatblygu elfennau o strategaethau asesu ar gyfer dysgu cyson ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n effeithlon i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau'r defnydd gorau ohono. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae pob un ohonynt yn cyrraedd y deilliant neu lefel ddisgwyliedig.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2018